# Sesiynau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Holi ac Ateb

## Methodoleg yr Arolwg

**Beth yw'r gwahaniaeth mewn ymatebion rhwng arolygon gwe ac wyneb yn wyneb?**

Rydym yn cynllunio ail beilot ar gyfer haf 2024, felly cawn gipolwg ar y gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn.

Rydym yn disgwyl gweld rhai gwahaniaethau yng nghyfansoddiad y sampl rhwng y moddau wyneb yn wyneb a'r we yn seiliedig ar hunanddewis. Fodd bynnag, trwy gynnig moddau lluosog, rydym yn disgwyl sampl mwy cynrychioliadol na thrwy un modd.

**Os mai'r we yn gyntaf yw'r dull bob amser, sut y byddwch yn dal y rhai nad ydynt yn gyfforddus â fformat digidol?**

Byddwn yn cynnig yr arolwg ar-lein yn gyntaf. Bydd y bobl hynny sy'n dewis peidio ag ymgysylltu ar-lein yn cael cynnig yr opsiwn i gymryd rhan dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

**Sut mae'r amcangyfrif o 50 munud o amser llenwi yn cymharu ag arolygon teithio yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon?**

Amcangyfrif cychwynnol yn unig yw hwn. Nid ydym wedi gwneud cymhariaeth uniongyrchol ag arolygon teithio eraill a weithredir yn y DU gan fod methodolegau'r arolygon yn sylweddol wahanol i'r dull arfaethedig ar gyfer WNTS.

**Beth fyddai rhaniad amser y 50 munud rhwng y dyddiadur teithio a'r holiadur?**

Rydym yn rhagweld y bydd y dyddiadur teithio yn cymryd y mwyaf o amser ar gyfartaledd, yn amodol ar nifer y teithiau a gofnodwyd, ond nid ydym yn gwybod hyn eto. Byddwn yn deall mwy o'n profion peilot.

**Ydy 50 munud yn rhy hir ar gyfer arolwg ar-lein?**

Mae 50 munud yn amcangyfrif pen uchaf. Unwaith eto, byddwn yn cael gwybod o'n profion peilot.

**A fydd cymhellion i'r ymatebwyr a ddewisir i gymryd rhan yn y WNTS?**

Rydym yn cynnig taleb LoveToShop gwerth £10 i bob ymatebydd sy’n llenwi'r arolwg.

**A fydd unrhyw gynnig i ymatebwyr gynnal yr arolwg mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg?**

Nid ar hyn o bryd, efallai y byddwn yn ystyried hyn yn y dyfodol.

## Sampl a Chynrychioldeb

**Pa oedran sy'n cael ei gyfrif fel oedolyn?**

Byddwn yn gofyn i unigolion 16 oed a hŷn i lenwi'r arolwg.

**A allai unrhyw un sydd dros 11 oed gwblhau'r arolwg?**

Nid ydym yn casglu data gan blant ar hyn o bryd. Byddai angen goruchwyliaeth gan oedolyn ar blant i lenwi'r arolwg, yn enwedig mewn lleoliad ar-lein. O ystyried ein dull presennol mae hyn yn rhoi baich mawr ar yr ymatebydd sy'n oedolyn ac felly nid yw'n cael ei symud ymlaen ar hyn o

bryd. Rydym yn awyddus i gasglu data gan blant a fydd yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o ymgysylltu â phlant yn y dyfodol.

**Pam ydych chi'n gor-samplu yng nghanolbarth Cymru?**

Nod y fethodoleg samplu yw bod yn gynrychioliadol yn ystadegol o bedwar rhanbarth Cymru. Rydym yn gor-samplu ardal Canolbarth Cymru oherwydd ei dwysedd poblogaeth is. Heb y gor-samplu hwn byddem angen sampl llawer mwy ledled Cymru i gael digon o bŵer ystadegol i adrodd yn hyderus ar ystadegau ar gyfer Canolbarth Cymru.

**O ystyried maint poblogaeth De-ddwyrain Cymru, a ellid ei rannu heb unrhyw gynnydd mewn costau? Er enghraifft, Cymoedd De-ddwyrain Cymru ac arfordir De-ddwyrain Cymru?**

Efallai y bydd hyn yn bosibl, ond ni fyddwn yn gwybod nes bod gennym set ddata gyflawn gyntaf. Dim ond data sy'n ystadegol gadarn y byddwn yn eu cyhoeddi. Mae'r data lefel ranbarthol yn bwysig ar gyfer cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol.

**A yw 'anheddau nad ydynt yn rhai preifat' yn golygu bod pobl sy'n byw mewn llety rhent yn cael eu heithrio?**

Na - gellid cynnwys pob cyfeiriad preswyl sydd wedi'i gofrestru ar ddarganfyddwr cyfeiriad cod post y Post Brenhinol yn sampl yr arolwg blynyddol ar hap. Fodd bynnag, ni fydd y sampl yn cynnwys anheddau nad ydynt yn rhai preifat fel carchardai neu gartrefi gofal.

**A fyddwch chi’n casglu data gan bobl sy’n byw mewn tai amlfeddiannaeth?**

Byddai tai amlfeddiannaeth yn cael eu cynnwys.

**A fyddwch chi'n casglu data gan bobl sy'n byw ar safleoedd teithwyr neu gartrefi symudol?**

Rydym yn tynnu’r sampl o ddarganfyddwr cyfeiriad cod post y Post Brenhinol, ac nid yw hyn yn cynnwys safleoedd teithwyr na chartrefi symudol. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i gynnwys pawb sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig a byddwn yn edrych ar y ffordd orau o gynnwys y grwpiau hyn wrth symud ymlaen.

**A ydych wedi ystyried casglu sampl cynrychioliadol o ffactorau economaidd gan ymatebwyr?**

Rydym yn credu bod cwestiynau ynghylch incwm, math o swydd ac addysg yn ymwthiol ac y gallent arwain at ymddieithrio â’r arolwg. Rydym yn bwriadu cysylltu data a gasglwyd drwy'r arolwg ar statws gweithgarwch economaidd a chod post ymatebwyr â data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Hefyd, efallai na fydd incwm yn benderfynydd allweddol o ran sut mae unigolyn yn teithio os yw’n byw mewn ardal sydd â darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig.

## Cynnwys yr Arolwg, Dadansoddiadau a Dadansoddiad

**Pa gwestiynau amgylcheddol sy'n cael eu cynnwys?**

Sŵn yw'r unig bwnc amgylcheddol sydd â'i gyfres uniongyrchol ei hun o gwestiynau. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â moddau penodol hefyd yn ymwneud â boddhad â'r amgylchoedd a ffactorau a fyddai'n annog defnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.

**A yw teithio i dwristiaid wedi'i eithrio?**

Bydd yr arolwg yn cynnwys holl ddibenion teithiau, ond dim ond i gyfeiriadau preswyl ar hap yng Nghymru y byddwn yn anfon yr arolwg. Ni fydd teithiau twristiaid yng Nghymru gan drigolion nad ydynt yn byw yng Nghymru yn cael eu cynnwys.

**A oes lle i ddefnyddio data rhwydwaith symudol i wella allbynnau WNTS?**

Nid ydym yn disgwyl digon o ymatebion i gyhoeddi canlyniadau arolygon blynyddol ar lefel Awdurdodau Lleol. Yn lle hynny, byddwn yn archwilio'r defnydd o ddata rhwydwaith symudol a ffynonellau data gweinyddol eraill ar gyfer amcangyfrif ardaloedd bach. Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn gallu cynhyrchu amcangyfrifon mwy aml, dibynadwy mewn ardaloedd llai.

**A allwch chi greu dadansoddiad ar gyfer ardaloedd daearyddol Parciau Cenedlaethol (sy'n cwmpasu nifer o awdurdodau lleol)?**

Gallwn ymchwilio i hyn unwaith y byddwn yn derbyn y set ddata gyflawn gyntaf.

**Pam nad ydych chi'n cynnwys teithiau cerdded a beicio ar gyfer hamdden?**

Rydym yn ymwybodol o beidio â gofyn am fwy o fanylion nag y bwriadwn eu defnyddio – yn enwedig gan ein bod yn ceisio lleihau'r baich ar ymatebwyr, o ystyried yr amser cwblhau amcangyfrifedig presennol ar gyfer yr arolwg. Mae profion defnyddwyr wedi dangos bod pobl yn deall y gwahaniaeth rhwng Teithio Llesol a cherdded a beicio at ddibenion hamdden, ond byddwn yn cadw hyn dan adolygiad yn ystod y cynlluniau peilot.

**A yw teithiau hamdden i gyrchfannau yn cael eu casglu yn ôl math o gyrchfan, ee Parc Cenedlaethol, arfordir, ac ati?**

Bydd rhan dyddiadur teithio'r arolwg yn casglu cyrchfan a phwrpas y daith. Bydd hyn yn cynnwys teithiau gyda chyrchfannau hamdden, ond nid cerdded, beicio na gyrru at ddibenion hamdden.

**A ddylai perchnogaeth beiciau hefyd gynnwys mynediad i feiciau? Efallai y bydd gan bobl fynediad at gynlluniau llogi beiciau.**

Ydym, rydym yn cynnwys cynlluniau llogi beiciau.

**A fydd yr arolwg yn cynnwys e-feiciau ac e-sgwteri fel dulliau teithio?**

Rydyn ni'n gofyn i feicwyr pa fath o feic y mae ganddynt fynediad ato ac yn ei ddefnyddio. Nid ydym yn holi'n benodol am e-sgwteri gan ei bod yn anghyfreithlon eu defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd. Gallwn gynnwys e-sgwteri yn arolygon y dyfodol pe bai'r sefyllfa honno'n newid.

**A fydd gwybodaeth am Wasanaethau Bws yn lle Trên yn cael ei dadansoddi?**

Rydym yn holi am deithiau diweddar drwy bob modd. Os oes rhywun wedi teithio ar fws yn lle trên byddem yn gweld eu defnydd a'u profiad o hynny.

**A fydd yr arolwg yn ystyried teithiau i deithwyr sy'n defnyddio'r trên i gael mynediad i Lwybrau Cerdded?**

Byddai, byddai'r elfen taith trên yn cael ei chofnodi fel taith i leoliad i wneud gweithgaredd hamdden. Fodd bynnag, ni fyddai'r elfen cerdded i wneud ymarfer corff yn hysbysadwy.

**A fyddwch chi'n adrodd ar y pellteroedd o darddiad siwrnai i'r cyrchfan trwy'r llwybr mwyaf uniongyrchol yn hytrach na'r pellter/llwybr gwirioneddol a deithiwyd?**

Byddwn yn amcangyfrif y pellter a deithiwyd yn seiliedig ar y tarddiad/man cychwyn, cyrchfan/man gorffen a'r dull teithio a nodwyd gan ymatebwyr. Ni fyddwn yn gallu olrhain yr union lwybr a ddefnyddiwyd, ond gallwn ddewis y mwyaf tebygol.

**A fyddwch yn gofyn am wefru cerbydau trydan gartref, cost parcio neu unrhyw daliadau tagfeydd?**

Na, nid yw'r pynciau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd. Efallai y byddwn yn ystyried hyn yn y dyfodol.

**A fyddwch yn gofyn pa fath o drafnidiaeth yr oedd ymatebwyr am ei defnyddio, yn hytrach na'r modd y gwnaethant ei defnyddio?**

Ddim ar hyn o bryd, heblaw am "beth fyddai'n eich annog i ddefnyddio modd X yn fwy?". Efallai y byddwn yn ystyried hyn yn y dyfodol.

**A fyddwch chi'n casglu data ar gyfer is-gamau cadwyn taith (ee gollwng o'r cartref i'r ysgol - gollwng mewn meithrinfa - lleoliad gwaith)?**

Byddwn. Rydym yn ceisio deall yr holl foddau, pwrpasau taith a chyrchfannau sy'n ffurfio taith gyflawn.

**A yw trafnidiaeth integredig yn cael ei chynnwys yn yr arolwg?**

Byddwn yn gofyn sut y gwnaeth ymatebwyr ddefnyddio'r moddau teithio y maent wedi'u defnyddio yn ystod y ddau ddiwrnod diwethaf yn y dyddiadur teithio. Rydym hefyd yn gofyn am foddhad y daith a beth fyddai'n annog defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr i deithio trwy ddulliau mwy cynaliadwy yn amlach.

**A fyddwch chi'n cyhoeddi data wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig a gwahanol gategorïau anabledd?**

Rydym yn defnyddio cwestiynau ac opsiynau ateb sy'n ymwneud â namau gwahanol wedi'u cysoni GSS (Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth). Rydym yn awyddus i gyhoeddi cymaint o ddadansoddiadau â phosibl, ond bydd hyn yn dibynnu ar faint o ddata a gesglir yn unol â'n protocolau ar atal data. Lle na allwn gyhoeddi dadansoddiadau yn flynyddol, byddwn yn ystyried cyhoeddi data agregedig ar draws sawl blwyddyn arolwg.